

DYSGU AR-LEIN – DRWY ZOOM

CYN CYCHWYN BYDD ARNOCH ANGEN:

- Gliniadur
- Cysylltiad Rhyngrwyd
- Sain – argymhellir clustffon gyda microffon
- Gwe-gamera

Mae Zoom yn gweithio orau ar liniadur ond Gellir hefyd eiddefnyddio ar ddyfeisiau clyfar.



Desg Gwasanaeth TG est: 6033

Dysgu a Datblygu Corfforaethol est: 6322

YMUNO Â SESIWN:

DEWIS 1

Cliciwch ar ddolen URL y cyfarfod sydd wedi'i chynnwys yn eich gwahoddiad calendr neu sydd wedi cael ei hanfon atoch yn uniongyrchol gan y trefnydd. Bydd y sesiwn Zoom yn agor yn awtomatig, bydd arnoch angen cyfrinair y cyfarfod wrth law..

DEWIS 2

Drwy dudalen mewngofnodi Zoom, cliciwch 'join a meeting', nodwch rif adnabod y cyfarfod ac yna gofynnir i chi ddarparu'r cyfrinair. Bydd y manylion hyn wedi'u nodi ar eich gwahoddiad calendr neu yn y wybodaeth a gewch yn uniongyrchol gan y trefnydd.



Join a Meeting

Join

YN YSTOD Y SESIWN:

Archwiliwch y gosodiadau cyffredin a ddefnyddir yn ystod sesiynau Zoom. Fe ddylech ymglyfarwyddo eich hun â'r rhain cyn dechrau'r sesiwn.

Cliciwch ar y botwm hwn i droi eich gwe-gamera ymlaen a'i ddiffodd

VIDEO



Yma ceuwch weld yr unigolion eraill yn y sesiwn

PARTICIPANTS



Mae'r botwm hwn yn rhoi dewis i gyfranogwyr rannu eu sgrin a chyflwyno

SHARE SCREEN



Pan rydych yn barod i adael y sesiwn cliciwch ar y botwm hwn

END



Mute

Start Video

Security

Participants

Polls

Chat

Share Screen

Record

Breakout Rooms

Reactions

End



MUTE / UNMUTE

Argymhellir eich bod yn diffodd eich microffon pan nad ydych yn ei ddefnyddio. Bydd hyn yn helpu gyda sŵn cefndirol



CHAT

Gallwch ddefnyddio'r swyddogaeth hon i holi cwestiynau a gwneud sylwadau pan nad yw'n bosibl



REACTIONS

Mae'r emojis megis 'wynebau cyfeillgar' a 'bawd i fyny' ac ati i'w cael yma, gallwch ddefnyddio'r rhain law yn llaw â CHAT

MAE GOSODIADAU PLEIDLEISIO, YSTAFELLOEDD YMNEILLTUO A RECORDIO YN CAEL EU RHEOLI GAN Y TREFNYDD.

PETHAU I'W HYSTYRIED:

- Ceisiwch ymglyfarwyddo eich hun â'ch offer a gosodiadau cyn ymuno â'r sesiwn. Sicrhewch eich bod yn gwybod sut i droi eich microffon / fideo ymlaen a'u diffodd, addasu'r sain / sensitifrwydd, defnyddio'r swyddogaeth 'chat'....fe allech hyd yn oed gynnal prawf ymlaen llaw.
- Ymunwch â'r sesiwn mewn da bryd. Bydd gwneud hyn yn caniatáu i chi ddatrys unrhyw broblem o ran cysylltiad neu sain cyn dechrau'r sesiwn
- Argymhellir eich bod yn defnyddio clustffon a bydd yn tawelu unrhyw sŵn cefndirol, gan eich helpu chi i glywed yn well.
- Sicrhewch eich bod yn diffodd eich fideo a'ch microffon pan nad ydych yn eu defnyddio, bydd hyn hefyd o gymorth os yw eich cysylltiad yn wael.
- Os ydych yn golygu eich enw, sicrhewch fod eich enw llawn yn cael ei arddangos er mwyn eich adnabod yn hawdd.
- Cadwch eich dyfais yn llonydd ac ar arwyneb fflat drwy gydol y sesiwn a sicrhewch fod y ddyfais wedi'i gwefru'n llawn.
- Ceisiwch eistedd o flaen cefndir plaen er mwyn osgoi tynnu sylw cyfranogwyr eraill neu ddangos unrhyw ddeunydd amhriodol neu gyfrinachol.
- Ystyriwch eich ymddangosiad personol gan y bydd eraill yn gallu eich gweld, hefyd sicrhewch fod digon o olau i gyfranogwyr eraill eich gweld chi.
- Ystyriwch eich ymddangosiad personol gan y bydd eraill yn gallu eich gweld, hefyd sicrhewch fod digon o olau i gyfranogwyr eraill eich gweld chi.
- Sicrhewch eich bod yn eistedd yn gyfforddus, yn rhydd o unrhyw amhariad. Gall pob cyfranogwr ar yr alwad glywed y synau o'ch cwmpas os nad ydych wedi diffodd eich microffon. Dylech ddiffodd eich ffôn symudol, peidio â symud unrhyw bapurau os nad yw'n angenrheidiol a gofyn i aelodau o'r teulu aros allan o olwg y camera.
- Dylech fod â rhif y Ddesg Gwasanaeth TG wrth law rhag ofn i chi brofi unrhyw anawsterau technegol: 01492 576033.
- Gall weithio o gartref trwy Netscaler arafu'r cysylltiad. Gallwch ddatgysylltu Netscaler os yw'n achosi problemau - yn arbennig os ydych angen defnyddio sain neu fideo. Os ydych yn datgysylltu Netscaler, sicrhewch fod gennych fanylion y cyfarfod Zoom wrth law. Unwaith i chi ddatgysylltu, ni fyddwch yn gallu cael mynediad at ddogfennau nac anfon/derbyn negeseuon e-bost..

